# Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015

**2015 dccc 6**

*Rhagarweiniol*

## 1 Trosolwg

(1) Mae'r Ddeddf hon yn gwneud darpariaeth ar gyfer uno 2 brif ardal bresennol neu ragor i greu un brif ardal newydd, gyda phrif awdurdod lleol newydd, ac mewn cysylltiad â hynny; ac yn fwy penodol—

(a) mae adrannau 3 i 10 yn gwneud darpariaeth sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n uno prif ardaloedd presennol i greu prif ardal newydd, gyda phrif awdurdod lleol newydd, mewn ymateb i gais gan y prif awdurdodau lleol presennol;

(b) mae adrannau 11 i 15 yn gwneud darpariaeth i brif awdurdodau lleol ar gyfer y prif ardaloedd presennol yr arfaethir eu huno i greu prif ardal newydd sefydlu pwyllgorau pontio (pa un ai drwy reoliadau neu drwy Fil a gyflwynir yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru gan Weinidogion Cymru);

(c) mae adrannau 16 i 24 yn gwneud darpariaeth ar gyfer trefniadau etholiadol a materion cysylltiedig mewn perthynas â phrif ardaloedd newydd;

(d) mae adrannau 25 i 28 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol i aelodau ac uwch swyddogion prif awdurdodau lleol ar gyfer prif ardaloedd newydd, ac mewn cysylltiad â hynny;

(e) mae adrannau 29 i 36 yn gwneud darpariaeth sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i osod cyfyngiadau ar drafodion, a gweithgareddau eraill, gan brif awdurdodau lleol ar gyfer prif ardaloedd yr arfaethir eu huno i greu prif ardal newydd;

(f) mae adrannau 37 a 38 yn darparu ar gyfer gosod gofynion ar y prif awdurdodau lleol hynny i ddarparu gwybodaeth.

(2) Mae'r Ddeddf hon hefyd yn gwneud diwygiadau eraill i'r gyfraith llywodraeth leol; ac yn fwy penodol—

(a) mae adran 39 yn gwneud darpariaeth i'r rheolaethau ar gyflogau penaethiaid gwasanaethau cyflogedig prif awdurdodau lleol fod yn gymwys i brif swyddogion eraill am gyfnod dros dro;

(b) mae adran 40 yn gwneud newidiadau i'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol penodol i roi sylw i argymhellion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol;

(c) mae adran 41 yn gwneud darpariaeth ynghylch aelodaeth Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol;

(d) mae adran 42 yn diwygio'r darpariaethau sy'n ymwneud ag arolygon o gynghorwyr ac ymgeiswyr na fu iddynt lwyddo i gael eu hethol yn gynghorwyr;

(e) mae adran 43 yn darparu ar gyfer arbed cynigion etholiadol a gyflwynwyd i Weinidogion Cymru cyn i Ran 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 ddod i rym.

## 2 Prif ddiffiniadau

(1) Mae'r diffiniadau a ganlyn yn cael effaith at ddibenion y Ddeddf hon.

(2) Ystyr "rheoliadau uno" yw rheoliadau o dan adran 6.

(3) Ystyr "awdurdod sy'n uno" yw—

(a) prif awdurdod lleol ar gyfer prif ardal sydd i gael ei huno i greu prif ardal newydd yn rhinwedd rheoliadau uno, neu

(b) (ac eithrio pan fo'r cyd-destun yn darparu fel arall) prif awdurdod lleol ar gyfer prif ardal sydd i gael ei huno i greu prif ardal newydd yn rhinwedd darpariaethau Bil a gyflwynir yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru gan Weinidogion Cymru neu Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

(4) Ystyr "prif ardal"yw sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru.

(5) Ystyr "prif awdurdod lleol" yw'r awdurdod lleol ar gyfer prif ardal.

(6) Ystyr "prif ardal arfaethedig" yw ardal a bennir fel prif ardal newydd—

(a) mewn cais o dan adran 3(1) neu mewn rheoliadau uno, neu

(b) mewn cynigion a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru (pa un ai mewn Bil drafft ai peidio), mewn Bil a gyflwynir yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru gan Weinidogion Cymru neu Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

(7) Ystyr "awdurdod cysgodol" yw—

(a) awdurdod sydd wedi ei sefydlu fel awdurdod cysgodol yn unol â darpariaeth a gynhwysir mewn rheoliadau uno o dan adran 7, neu

(b) awdurdod sydd wedi ei ethol fel awdurdod cysgodol ar gyfer prif ardal newydd a bennir mewn Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â darpariaeth a wneir gan y Ddeddf.

(8) Ystyr "dyddiad trosglwyddo"—

(a) mewn perthynas ag achos pan fo ardaloedd prif awdurdodau lleol wedi uno (neu'n mynd i uno) i greu prif ardal newydd yn rhinwedd rheoliadau uno, yw 1 Ebrill 2018;

(b) mewn perthynas ag achos pan fo ardaloedd prif awdurdodau lleol wedi uno (neu'n mynd i uno) i greu prif ardal newydd yn rhinwedd Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yw 1 Ebrill 2020.

(9) Ystyr "pwyllgor pontio" yw pwyllgor pontio a sefydlir yn unol â rheoliadau o dan adran 11.